Ymgynghoriad gan Awdurdod S4C

Ar Gynigion ar gyfer darpariaeth sianel deledu Gymraeg i blant a phobl ifanc yn y dyfodol.

Gwasanaethu Plant yn y Dyfodol Digidol

Darganfyddiadau'r Ymgynghoriad

Cynnwys

Rhagymadrodd	3
Dogfennau Gwreiddiol a Gyhoeddwyd	4
Crynodeb Gweithredol	4
Methodoleg	7
Plant a Phobl Ifainc	8
Oedolion (Unigolion)	10
Oedolion (Sefydliadau)	15
Crynodeb o'r Darganfyddiadau	21
Ymatebion a Dderbyniwyd	22
Rhestr o Sefydliadau a Ymatebodd	23
Eraill yr Ymgynghorwyd â nhw	23

Gwasanaethu Plant yn y Dyfodol Digidol

Rhagymadrodd

Dangosodd ymchwil annibynnol ar ran S4C, ac ymchwil a wnaed gan eraill, bod y ffordd y mae plant a phobl ifainc yn defnyddio'r cyfryngau clyweledol wedi newid yn ddirfawr. Rhoddwyd cryn sylw i deledu plant hefyd pan gyhoeddodd Ofcom adolygiad ar deledu a chyfryngau eraill plant ym Mhrydain, fel rhan o'u gwaith ar ddyfodol Darlledu Cyhoeddus yn yr oes ddigidol.

Er mwyn gallu cystadlu gyda sianeli a chyfryngau eraill sydd yn darparu ar gyfer plant, daeth S4C i'r casgliad fod angen gwasanaeth penodol ar gyfer plant a phobl ifainc yn yr iaith Gymraeg.

Dan Adran 205 (1) Deddf Gyfathrebu 2003, nid yw Awdurdod S4C yn gallu darparu gwasanaeth rhaglenni teledu newydd heb ganiatâd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Mae Awdurdod S4C yn gorff annibynnol sy'n atebol dros allbwn S4C tra bo'r Prif Weithredwr, Swyddogion S4C a staff S4C yn rheoli a chynnal S4C, gan gynnwys darparu gwasanaethau S4C.

Cyflwynodd S4C ei Gynigion i Awdurdod S4C a gofyn am gefnogaeth yr Awdurdod wrth geisio am Orchymyn gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Y cynnig ar hyn o bryd yw un am ganiatâd ar gyfer gwasanaeth newydd, tebyg i S4C Digidol, ond wedi'i anelu yn bennaf at blant a phobl ifainc.

Y bwriad yw y bydd y gwasanaeth newydd

1. yn cael ei ddarlledu ar sail gwylio di-dâl ar bob system ddarlledu addas
2. ar gael am 15 awr y dydd rhwng 0600 a 2100 wedi iddo gyrraedd ei lawn dwf
3. Yn cael ei gynnal ar ddwy sianel wahanol, i ddarparu gwasanaethau ar gyfer tair cynulleidfa wahanol h.y. plant cyn oed ysgol, plant hŷn a'r arddegau.

Disgwylir i gyfran sylweddol o'r rhaglenni fod yn rhai gwreiddiol wedi eu cynhyrchu yng Nghymru, gyda'r safonau cynhyrchu uchel a ddisgwylir gan raglenni S4C.

Bydd y gwasanaeth newydd yn yr iaith Gymraeg yn bennaf, a bydd Awdurdod S4C yn creu polisi iaith ar gyfer y gwasanaeth newydd, fel y mae'n gwneud ar hyn o bryd ar gyfer S4C Digidol.

Cynigir bod y gwasanaeth newydd yn defnyddio'r gofod darlledu sydd eisoes ar gael ar S4C2 ac sydd ar hyn o bryd yn darlledu gweithrediadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o Ddydd Mawrth i Dydd Iau rhwng 0900 a 1800. Gosodwyd tair enghraifft o opsiynau posibl ar gyfer defnyddio'r gofod darlledu.

Nid oes cyllid ychwanegol yn cael ei geisio ar gyfer y gwasanaeth newydd. Y bwriad yw ei gyllido drwy'r ffyrdd sydd eisoes ar gael, h.y. cyfuniad o arian cyhoeddus ac incwm masnachol.

Er mwyn darganfod barn y cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol ar y cynnig i sefydlu gwasanaeth darlledu cyhoeddus Cymraeg ar gyfer plant a phobl ifainc, cyhoeddodd yr Awdurdod ddogfen ymgynghorol ym Mai 2007 - *Gwasanaethu Plant yn y Dyfodol Digidol*. Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion oedd Gorffennaf 20fed 2007.

Cafwyd rhai cannoedd o ymatebion i'r ymgynghoriad. Nid ymchwil feintiol mohoni ac felly ni chafodd ei ddehongli'n ystadegol. Yn hytrach, dadansoddwyd y data ar sail unigol, gan ddefnyddio technegau ymchwil farchnad ansoddol i ddehongli a chyflwyno'r ymatebion a chael hyd i unrhyw themâu oedd yn gyffredin.

Er mwyn sicrhau asesiad annibynnol comisiynwyd cwmni ymgynghori a marchnata annibynnol i gasglu, dehongli ac adrodd ar yr ymatebion ar ran yr Awdurdod.

> Bydd Awdurdod S4C yn ystyried y manteision a'r anfanteision a nodir yn yr ymatebion ac yn ystyried a ddylid bwrw ymlaen gyda chais i'r Ysgrifennydd Gwladol am Orchymyn. Os yw'r Awdurdod yn cytuno i fwrw ymlaen bydd y wybodaeth a gasglwyd yn cael ei defnyddio i gefnogi'r cais.

Dogfennau Gwreiddiol a Gyhoeddwyd

Gellir gweld y ddogfen Ymgynghorol wreiddiol - Gwasanaethu Plant yn y Dyfodol Digidol – a'r Ffurflen Ymateb wreiddiol trwy ddilyn y linciau canlynol.

Dogfen Ymgynghorol wreiddiol
Ffurflen Ymateb wreiddiol

Darparwyd yr holiadur i Blant a Phobl Ifanc ar y we a gellir gweld copi ohono trwy ddilyn y linc isod.

Holiadur i Blant a Phobl Ifanc

Crynodeb Gweithredol

1.1 Cyhoeddodd Awdurdod s4C y ddogfen ymgynghorol *Gwasanaethu Plant yn y Dyfodol Digidol/ Serving Children in the Digital Future* ym Mai 2007, i ddarganfod barn y cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol ynghylch y cynnig i ddarparu sianel deledu gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer plant a phobl ifainc.

1.2 Cafwyd 347 o ymatebion gan blant a phobl ifainc, 103 o ymatebion gan unigolion mewn oed a 40 ymateb gan sefydliadau. Dadansoddwyd y data drwy ddefnyddio technegau ymchwil farchnad ansoddol er mwyn dehongli a chyflwyno barn yr ymatebwyr ac i adlewyrchu unrhyw themâu cyffredin.

1.3 Ystod cul o oedrannau a gynrychiolir gan y plant a phobol ifainc a ymatebodd. Maen nhw i gyd, bron, rhwng 10 ac 14 mlwydd oed.

1.4 Roedd y rhan fwyaf o'r rhai dan 16 oed a ymatebodd o blaid y gwasanaeth newydd mewn egwyddor. Roedd 305 ohonynt yn cytuno y byddai creu sianel deledu Gymraeg i blant a phobl ifainc yn welliant ar y ddarpariaeth bresennol, tro bo 42 yn anghytuno. (C1).

1.5 Roedd yr ymatebwyr hyn yn ystyried y slot wylio foreol, yn ystod yr wythnos a thros y penwythnos, fel un ar gyfer plant dan 5 oed (ac i raddau llai, dan 10 oed). Gellir neilltuo darllediadau amser cinio yn ystod yr wythnos i blant dan 5 oed heb lawer o ymateb negyddol gan blant hŷn. Dros y penwythnos, fodd bynnag, disgwylir rhaglenni ar gyfer plant rhwng 5 a 10 oed yn ystod y slot hwn, ac i raddau llai, 10 - 16 oed. Roedd elfen o gystadleuaeth dros y slotiau ar ôl ysgol yn ystod yr wythnos a'r prynhawniau dros y penwythnos. Roedd y nosweithiau yn cael eu hystyried fel y man i gael rhaglenni ar gyfer yr oedran 10 - 16.

1.6 Roedd dau reswm y tu ôl i gefnogaeth plant a phobl ifainc i'r syniad. Roedd y cyntaf yn ymwneud â'r awydd i atgyfnerthu balchder yn yr iaith ac i wella eu sgiliau ieithyddol nhw - ynghyd â sgiliau ieithyddol plant a phobol ifainc eraill.

1.7 Roedd yr ail brif reswm yn adlewyrchu cefnogaeth gyffredinol i'r syniad o ddewis helaethach o gyfleoedd gwylio y byddai'r gwasanaethau newydd yn ei gynnig. Roedd llawer o'r ymatebwyr yn disgwyl y byddai rhaglenni'r gwasanaeth newydd yn well na'r rhai sydd ar gael ar hyn o bryd; yn benodol, y byddai mwy o raglenni i'r arddegau. Roedd teimlad nad oedd digon ar S4C i'r gynulleidfa hon ar hyn o bryd.

1.8 Crybwyllodd yr ymatebwyr y byddai'n well ganddynt gael cynnwys yn ymwneud â cherddoriaeth, chwaraeon, drama a ffordd o fyw gan gynnwys ffasiwn a pherthnasau. Roedd disgwyl cyffredinol ar i'r rhaglenni gymharu'n ffafriol gyda'u hoff raglenni yn Saesneg.

Oedolion (unigolion)

1.9 Yn gyffredinol, roedd ymateb cadarnhaol i syniad S4C, gyda llawer o unigolion yn croesawu'r cynnydd mewn oriau darlledu ar gyfer plant a phobl ifainc yn frwd iawn. O'r 103 o ymatebion a ddaeth i law, roedd 97 yn cytuno y byddai gwasanaeth neu floc o raglenni ar gyfer plant a phobl ifainc yn gwella'r ddarpariaeth gwasanaeth cyhoeddus Cymraeg ar gyfer plant a phobl ifainc, dim ond un a ddywedodd na, ac nid atebwyd y cwestiwn gan 5 (C1).

1.10 Roedd y rhan fwyaf o'r unigolion a ymatebodd yn rhieni. Roedd eu cefnogaeth i'r syniad yn deillio yn bennaf o'u hawydd i'w plant glywed mwy o'r Gymraeg gartref, yn enwedig felly yn achos plant cyn oed ysgol. Roedd hyn yr un mor wir am rieni Cymraeg eu hiaith oedd eisiau atgyfnerthu'r Gymraeg ar yr aelwyd a rhieni di-Gymraeg sy'n defnyddio S4C i ymestyn a chefnogi'r Gymraeg y mae eu plant yn ei dysgu yn yr ysgol neu gylch meithrin. Mae'r pryder sydd gan rieni fod eu plant yn clywed gormod o Saesneg gartref yn ffactor bwysig.

1.11 Soniodd llawer o'r rhai a ymatebodd eu bod o'r farn y dylai plant a phobl ifainc gael yr un cyfle i gael gwasanaethau yn y Gymraeg ag y mae plant a phobol ifainc di-Gymraeg yn ei gael yn Saesneg. Roedd y gwasanaeth newydd yn cael ei ystyried yn un tecach yn ei hanfod. Roedd croeso i hyn fel cam pellach yn y broses o normaleiddio statws y Gymraeg.

1.12 Roedd ymatebwyr o'r farn y byddai angen brandio'r gwasanaeth yn glir iawn a bod angen hunaniaeth unigryw ar gyfer pob grŵp oedran. Soniodd nifer o ymatebwyr am Planed Plant a Planed Plant Bach, a'u canmol, ac maen nhw yn amlwg yn frandiau cryf sy'n cael eu hadnabod yn hawdd. Roedd pobl am i'r gwasanaeth newydd adeiladu ar y rhain.

1.13 Roedd disgwyl ar i'r gwasanaeth newydd ddarparu rhaglenni o safon uchel, ac roedd hyn yn nodwedd allweddol. Roedd CBBC a Cbeebies yn cael eu hystyried fel gwasanaethau y dylid efelychu eu safon. Dyma'r math o wasanaeth y byddai rhieni yn disgwyl i S4C anelu tuag ato.

1.14 Roedd dau brif reswm dros ymatebion negyddol. Roedd nifer o ymatebwyr yn anhapus nad oedd yr oriau darlledu a awgrymwyd ar gyfer yr oed ieuengaf yn llwyr addas ar gyfer ffordd o fyw teuluoedd cyfoes. Mae rhieni sy'n gweithio, â chanddyn nhw blant cyn oed ysgol mewn methrinfeydd yn ystod y dydd, yn chwilio yn bennaf am adloniant ar gyfer plant yn ystod yr "awr noswylio" rhwng 6-7 neu 7.30 yr hwyr. Roedden nhw'n siomedig felly nad oedd y gwasanaeth newydd arfaethedig yn darlledu i blant dan 5 oed yn gynnar gyda'r nos.

1.15 Roedd defnyddio'r geiriad statudol presennol o ran iaith yn fater yr ymatebodd nifer o bobl iddo. Roedd cred fod y geiriad yn rhy niwlog. Barn gymysg a leisiwyd ar bolisi iaith y gwasanaeth newydd, ond mae'n deg dweud fod y rheini oedd yn poeni am i S4C ddatgan yn ddi-flewyn ar dafod mai gwasanaeth cyfan-gwbl Gymraeg 'fyddai'r gwasanaeth newydd.

1.16 Roedd y rhan fwyaf o'r ymateb i'r oriau darlledu arfaethedig a'r cynulleidfaoedd targed yn gadarnhaol, er bod teimlad na fydd yr oriau yn cystadlu'n ffafriol gyda gwasanaethau Saesneg. Serch hynny, mae pobl yn ymarferol ar y cyfan ac yn derbyn y bydd y cynllun arfaethedig, er gwaethaf cyfyngiadau cyllid a gofod darlledu, yn gymorth mawr i gywiro'r anghydbwysedd. Y mae, yn ei hanfod, anghysondeb rhwng tri gwasanaeth a dwy sianel, ac mae pobl felly yn derbyn y bydd y gwasanaeth yn gyfaddawd i raddau.

1.17 O ran y nodweddion allweddol ar gyfer gwasanaethau teledu i blant a phobl ifainc gan S4C (C5), ansawdd rhaglenni oedd y nodwedd a grybwyllwyd amlaf. Soniwyd yn aml hefyd am raglenni yn cael eu cynhyrchu yng Nghymru, ond roedd addasiadau wedi eu dybio'n gelfydd hefyd yn dderbyniol. Soniodd rhieni fod elfen o 'kudos' mewn clywed hoff gymeriadau'r plant yn siarad Cymraeg.

1.18 Roedd argaeledd a hygyrchedd yn themâu cyson. Roedd teimlad ei fod yn hynod bwysig fod rhaglenni'r plant rhwng 5 a 10 oed yn enwedig yn cael eu cynnwys yn y Rhestrau Rhaglenni Electronig (EPG) dan y pennawd PLANT (KIDS), fel eu bod yn gwybod yn hawdd sut a phryd i gael hyd iddynt. Roedd cred fod yr arddegau yn defnyddio bwydlenni arferol yr oedolion i chwilio am eu rhaglenni hwythau - a bod angen, felly, frandio eu rhaglenni nhw yn gryf iawn er mwyn denu eu sylw.

1.19 Y gwahaniaethau mwyaf rhwng barn yr unigolion a ymatebodd a'r sefydliadau a ymatebodd oedd eu hagweddau tuag at ddarlledu o'r Cynulliad Cenedlaethol. Er i ambell unigolyn leisio pryder ynghylch yr effaith ar ddarlledu'r Cynulliad, roedd y rhan fwyaf ohonynt o blaid rhoi'r flaenoriaeth i'r gwasanaeth ar gyfer plant a phobl ifainc.

1.20 Yn gyffredinol, roedd y 103 o ymatebion gan unigolion yn awgrymu:

- y bydd croeso brwd i wasanaeth plant a phobl ifainc arfaethedig S4C, gyda rhai yn credu ei bod yn hen bryd cychwyn gwasanaeth o'r fath;

- y dylid sicrhau rhaglenni o safon uchel fod yn flaenoriaeth;

- y dylai'r gwasanaeth gael polisi iaith clir iawn o'r cychwyn cyntaf;

- y dylai'r gwasanaeth gael ei frandio yn glir ac yn addas ar gyfer y tair cynulleidfa darged, a'i hyrwyddo yn drwm ar blatfformau addas i'r gwahanol gynulleidfaoedd.

Sefydliadau

1.21 Fel gyda'r unigolion, roedd y rhan fwyaf o'r sefydliadau yn sicr o blaid Cynigion S4C i gryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer plant a phobl ifainc.

1.22 Roedd y sefydliadau yn rhoi llawer mwy o bwyslais ar bwysigrwydd darparu ar nifer o blatfformau ac ar gyfleoedd rhyngweithio.

1.23 Soniodd nifer o ymatebwyr am y rhaniadau yn y gynulleidfa darged, rhai yn anghytuno gyda'r dosraniad oedran a amlinellwyd yn y ddogfen. Roedd teimlad na fyddai bloc o raglenni ar gyfer oed 10 - 16 yn gweithio, gan fod pobl ifainc rhwng 14 ac 16 yn wahanol iawn eu chwaeth ac aeddfedrwydd i blant rhwng 10 ac 13 oed. Soniwyd hefyd fod 5 - 10 oed yn ystod oedran rhy eang, a bod chwaeth plant yn newid o gwmpas 7 oed.

1.24 Roedd sefydliadau, yn ogystal ag unigolion, yn pwysleisio pwysigrwydd enfawr cysondeb a hygyrchedd. Nododd ymatebwyr y byddai'n well ganddynt weld darllediadau'r Eisteddfod, er enghraifft, yn torri ar draws rhaglenni'r oedolion yn hytrach na thorri ar draws y sianel blant a phobl ifainc.

1.25 O ran nodweddion allweddol, soniwyd amlaf gan y sefydliadau (fel yn achos yr unigolion) am raglenni o safon uchel. Roedd y sefydliadau yn rhoi mwy o bwys ar wreiddioldeb rhaglenni, a gofynnwyd i S4C i barhau i gomisiynu rhaglenni gwreiddiol o gwmnïau Cymreig yn benodol.

1.26 Roedd mater iaith y sianel yn amlwg yn ymatebion y sefydliadau, gyda llawer yn dadlau'n gryf na ddylai fod unrhyw amwysedd ac mai yn yr iaith Gymraeg yn unig y dylai'r sianel ddarlledu. Roedd rhai ymatebwyr, fodd bynnag, o blaid darpariaeth ar gyfer rhieni di-Gymraeg sy'n codi eu plant a phobl ifainc yn ddwyieithog, yn enwedig ar gyfer plant cyn oed ysgol.

1.27 Rhoddwyd sylw mewn sawl ymateb - ymhlith unigolion a sefydliadau - i'r angen am gyllid digonol ar gyfer y gwasanaethau. Roedd amheuaeth a allai S4C ddarparu gwasanaeth o'r safon angenrheidiol heb gynnydd i'w gyllid. Mae canfyddiad nad yw S4C yn cael ei gyllido'n ddigonol ar hyn o bryd ac y byddai neilltuo arian i'r gwasanaeth newydd yn effeithio'n andwyol ar weddill cynnyrch S4C.

1.28 Roedd ymatebion manwl ac amrywiol i oblygiadau'r Cynigion ar ddarlledu'r Cynulliad Cenedlaethol. Soniodd llawer nad oedden nhw'n teimlo fod yr opsiynau posibl a amlinellwyd yn y ddogfen ymgynghori yn cynnig yr ateb gorau, ac roedd rhai yn gofyn am drafodaethau pellach ar y mater.

1.29 Soniodd llawer o sefydliadau am bwysigrwydd brandio a marchnata'r gwasanaeth newydd. Roedd cred fod hybu rhaglenni'r naill sianel ar y llall yn angenrheidiol. Soniwyd y gallai sianel benodol i blant a phobl ifainc ddwyn gwylwyr oddi ar wasanaethau eraill S4C pe na hybwyd ei raglenni eraill ar y sianel newydd.

1.30 Y teimlad a geir yn gyffredinol o'r ymatebion gan sefydliadau yw:

- fod y gwasanaeth newydd a gynigir i'w groesawu fel cyfle i gynnig gwell gwasanaethau teledu ar gyfer plant a phobl ifainc Cymraeg eu hiaith;

- y dylid canmol S4C am ei ymrwymiad i ddarparu'r gwasanaeth hwn pan fo llawer o ddarlledwyr Prydain fel petaent yn cefnu ar ddarpariaeth plant a phobl ifainc;

- Mae nifer sylweddol o sefydliadau, fodd bynnag, yn poeni y bydd y cynigion a amlinellir gan S4C

yn cael effaith andwyol ar argaeledd darllediadau teledu o'r Cynulliad Cenedlaethol, ac mae hyn yn dyfrhau eu cefnogaeth gyffredinol i wasanaethau plant a phobl ifainc.

1.31 Bydd Awdurdod S4C yn ystyried y manteision a'r anfanteision a ddaeth yn glir o'r ymatebion i'r broses ymgynghori ac yn ystyried a ddylid bwrw ymlaen gyda chais am Orchymyn gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

Methodoleg

2.1 Cafodd holiadur ymgynghori ei greu ar gyfer plant a phobl ifainc dan 16 oed, a'i ddosbarthu drwy ysgolion cynradd ac uwchradd ledled Cymru. Bwriad yr holiadur oedd canfod barn y cynulleidfaoedd targed ar yr egwyddor o greu gwasanaeth teledu Cymraeg ac ar oriau darlledu gorau gwasanaeth o'r fath. Mae rhestr o'r cwestiynau a ofynnwyd yn yr holiadur plant a phobl ifainc yn Atodiad 1. Gellid ateb y rhan fwyaf o'r cwestiynau drwy dicio blwch. Y cwestiwn olaf oedd yr unig un agored.

2.2 Roedd tair ffordd wahanol y gallai'r oedolion ymateb - drwy holiadur ar-lein, drwy e-bost neu drwy'r post. Roedd gofyn i'r rhai oedd yn ymateb drwy e-bost neu'r post gynnwys y ddalen flaen ymgynghorol, fel bod cwestiynau penodol yr oedd yr Awdurdod am eu hystyried yn cael ateb gan y mwyafrif, os nad pob un, o'r ymatebwyr. Mae'r cwestiynau hyn yn Atodiad 2. Roedd tri chwestiwn ydwyf/ nac ydwyf penodol a phedwar cwestiwn agored. Ar ben hyn, roedd ymatebwyr yn gallu ymhelaethu ar eu hymatebion ydwyf/ nac ydwyf.

2.3 Comisiynwyd Walton Evans, cwmni marchnata ac ymchwil ymgynghorol annibynnol, i gasglu, dadansoddi ac adrodd ar yr ymatebion.

2.4 Cynhaliwyd hefyd ddau gyfarfod ar gyfer prif randdeiliaid, un yng Nghaerdydd ac un ym Mangor. Cafodd y ddau gyfarfod eu trawsysgrifio a'u cynnwys yn y broses ddadansoddi.

2.5 Gan nad oedd yr ymgynghoriad, a ddenodd rhai cannoedd o ymatebion, yn ymchwil feintiol, nid yw'r darganfyddiadau wedi eu dadansoddi'n ystadegol. Ar sail unigol y mae'r data wedi ei ddehongli, yn defnyddio technegau ymchwil farchnad ansoddol i ddadansoddi a chyflwyno barn yr ymatebwyr, ac i adlewyrchu unrhyw themâu cyffredin.

2.6 Ar sail ddienw y mae'r ymatebion wedi cael eu dehongli a'u hadrodd a pharchwyd cyfrinachedd yn ystod y broses.

2.7 Cyflwynir y darganfyddiadau mewn tair adran wahanol,

- Plant a phobl ifainc
- Oedolion (unigolion)
- Oedolion (sefydliadau)

2.8 Yn yr adran ar blant a phobl ifainc, cyflwynir y darganfyddiadau fesul cwestiwn. Defnyddiwyd dull gwahanol yn yr adrannau ar ymatebion yr oedolion, fodd bynnag, yn bennaf am fod llawer o ailddweud yn yr ymatebion i gwestiynau 1, 4, 5 a 7. Roedd yn fwy synhwyrol, felly, i gyflwyno'r ymatebion dan benawdau. Roedd cwestiynau 2 a 6 yn fwy penodol, ac felly cyflwynir yr ymatebion i'r rhain fesul cwestiwn.

2.9 Cynhwysir dyfyniadau gair am air dienw yn yr adroddiad pan fo'n addas. Fe'i cyflwynir yn yr iaith wreiddiol, gyda chyfieithiad i'r Gymraeg o'r rhai a atebwyd yn wreiddiol yn Saesneg.

Plant a Phobl Ifainc

3.1 Ymatebodd 347 o blant a phobl ifainc i'r ymgynghoriad. Dyma oedd eu proffil oed a rhyw:

Proffil oedran	
0-5 oed	2
6-10 oed	39
11-16 oed	308
Proffil rhyw	
Bechgyn	141
Merched	206

3.2 Mae'n bwysig cofio mai ystod oedran cul a adlewyrchir yn yr ymatebion. Roedd y mwyafrif helaeth o'r rhai a ymatebodd rhwng 10 ac 14 oed. Roedd dyrnaid o blant 8/9 oed a 6 ymateb gan bobl ifainc 16 oed, ynghyd â dau ymateb gan rieni ar ran plant dan 5 oed.

3.3 Roedd awgrym fod rhai setiau o ymatebion wedi'u paratoi yn yr ysgol ac fel rhan o ymarfer dosbarth fwy na thebyg.

Cwestiwn 1

3.4 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o blaid y gwasanaeth arfaethedig newydd mewn egwyddor. Roedd 305 o'r farn y byddai gwasanaeth teledu Cymraeg newydd i blant a phobl ifainc yn welliant ar y ddarpariaeth bresennol, gyda 42 yn anghytuno.

Cwestiwn 2

3.5 Cafwyd 314 o atebion ydwyf a 29 nac ydwyf i'r cwestiwn 'A ydych o'r farn ei fod yn syniad da a fydd yn apelio at grwpiau oedran 0-5 oed 5 - 10 oed 10 - 16 oed?' 'Chafwyd dim ateb i'r cwestiwn hwn gan bedwar o ymatebwyr.

Cwestiwn 3

3.6 Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r ymatebion i'r cwestiynau ynghylch oriau darlledu yn yr holiadur. Gofynnwyd i'r ymatebwyr dicio faint bynnag o flychau ag yr oedden nhw'n dymuno, gan nodi pryd y dylai rhaglenni gael eu dangos ar gyfer y gwahanol oedrannau.

Slot diwrnod ac amser	**0-5 oed**	**5-10 oed**	**10-16 oed**
Llun - Gwener Bore	245	157	77
Amser cinio	172	54	31
Ar ôl ysgol	151	279	224
Gyda'r hwyr	25	48	264
Sadwrn - Sul Bore	225	185	112
Amser cinio	199	170	89
Prynhawn	139	198	215
Gyda'r hwyr	23	58	245

3.7 Mae ymatebwyr yn ystyried y slot wylio foreol, yn ystod yr wythnos ac ar benwythnosau, fel un diamwys ar gyfer plant dan 5 oed ac (i raddau llai) i blant dan 10 oed.

3.8 Gellid neilltuo amser cinio yn ystod yr wythnos i blant dan 5 oed, heb lawer o adwaith anffafriol gan blant hŷn. Dros y penwythnos, fodd bynnag, byddai disgwyl gweld rhaglenni ar gyfer plant 5-10 oed, ac i raddau llai 10-16 oed, hefyd yn ystod y slot hwn.

3.9 Ar sail yr ymatebion, roedd peth cystadleuaeth dros y slot ar ôl ysgol yn ystod yr wythnos a'r slot brynhawn dros y penwythnos ond roedd slotiau'r hwyr yn cael eu hystyried yn rhai ar gyfer plant a phobl ifainc 10-16 oed.

"Mae rhaglenni da iawn gan s4c ar hyn o bryd, ond dydy nhw ddim ar y teledu ar amser sy'n siwtio fi. Byddai sianel dim ond ar gyfer plant yn syniad gwych!"

Cwestiwn 4

3.10 Cafwyd cyfanswm o 281 o ymatebion i'r cwestiwn olaf, agored, gyda phob un heblaw am un yn y Gymraeg. Fel y gellid disgwyl ar ôl yr ymatebion i gwestiwn 1 a 2 (gweler 4.4 a 4.5 uchod) roedd y mwyafrif helaeth o'r sylwadau a wnaed yn gadarnhaol, yn dangos llawer iawn o ewyllys da tuag at ddarllediadau presennol S4C ac yn edrych ymlaen at fwy o'r un peth.

3.11 Roedd y rhesymau dros y gefnogaeth yn syrthio i ddau brif gategori. Roedd y categori cyntaf yn adlewyrchu eu balchder yn yr iaith Gymraeg, a gwella eu crap nhw - a phlant eraill - ar yr iaith. Tra bo llawer o'r sylwadau yn awgrymu eu bod wedi cael eu dylanwadu gan rieni a/ neu athrawon, roedd eraill fel petaent yn adlewyrchu barn gref y pobl ifainc eu hunain.

"Mae siarad Cymraeg ar sianel Cymraeg yn bwysig oherwydd mae'n rhoi iaith arall adref. Hefyd mae lot o pobl sydd yn mynd i Ysgol cymraeg yn siarad saesneg adref mae S4C yn atgofio nhw i siarad cymraeg adref."

"Rydw i'n meddwl ei bod e'n syniad da oherwydd, mae e'n gallu helpu mwy o blant i siarad mwy o Gymraeg, ac i wella eu Cymraeg nhw."

3.12 Roedd yr ail categori o ymatebion yn adlewyrchu croeso cyffredinol i'r cynnydd mewn dewis y byddai'r gwasanaethau newydd yn ei greu. Roedd llawer o ymatebwyr yn disgwyl y byddai rhaglenni'r gwasanaeth newydd yn well na'r rhai sydd ar gael ar hyn o bryd; ac y byddai mwy o raglenni i'r arddegau yn enwedig, yn adlewyrchu teimlad nad oes llawer ar S4C ar eu cyfer ar hyn o bryd.

"Rydw i'n credu ei fod yn syniad da i gael sianel Gymraeg i'r pobl ifanc , oherwydd mae s4c yn medru bod yn ddiflas i blant ond yn ddifyr i bobl hyn . Ac os mae sianel Gymraeg dda ar y teledu byddwn ni DDIM yn gwylio gymaint o raglenni Saesneg"

"Nid wyf yn gwylio llawer o rhaglenni s4c ond os oedd yna pethau arno yn amlach ac yn dda byddaf yn gwylio s4c mwy aml".

3.13 Roedd ambell sylw negyddol am Gynigion S4C, yn crybwyll nad oedd yr ymatebwyr yn gwylio S4C o gwbl, ac na fyddai ganddynt ddiddordeb mewn sianel benodol i blant a phobl ifainc 'chwaith. Roedd pob un o'r rhain rhwng 11 ac 16 oed, ac yn cynnwys dau o'r bobl ifainc 16 oed a ymatebodd, gan ateb 'nac ydwyf' i Gwestiwn 1 a 2.

3.14 Roedd llawer o sylwadau unigol yn awgrymu pa fath o raglenni yr hoffent eu gweld ar y gwasanaeth newydd. Ar y cyfan, y mathau o raglenni a grybwyllwyd oedd cerddoriaeth, chwaraeon, drama a rhaglenni ffordd o fyw yn cynnwys ffasiwn a materion yn ymwneud â pherthnasau a dramâu/ operâu sebon. Roedd rhai yn gofyn am raglenni natur a ffermio, ac awgrymiadau amrywiol am gystadlaethau, yn enwedig rhai yn cynnwys llanast a 'gunge'. Roedd disgwyl cyffredinol ar i'r rhaglenni fod gystal â'u hoff raglenni Saesneg.

3.15 Sianeli eraill a enwyd gan yr ymatebwyr hyn fel rhai y dylai'r gwasanaeth newydd eu hefelychu oedd Jetix, MTV, Sky One a Bravo. Nid oedd gwahaniaeth amlwg rhwng hoff sianeli y gwahanol

grwpiau oedran, ond gan gofio bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o'r un oed, efallai nad yw hyn yn syndod.

3.16 Soniodd nifer o ymatebwyr fod rhaglenni S4C (y rhai cyfredol ac ar y gwasanaeth newydd a gynigir) yn fwy addas ar gyfer eu brodyr a chwiorydd ifainc e.e. cartŵnau fel Batman, Spiderman, Sponge Bob a Pokemon. Dywedodd un ymatebydd (16 oed) y byddai ei brawd bach wrth ei fodd gyda'r gwasanaeth newydd - gan awgrymu felly nad oedd yn credu fod y gwasanaeth yn addas iddi hi o gwbl.

3.17 Yn rhyfedd ddigon, o bosib, o gofio'r gred gyffredinol fod technoleg newydd a phlatfformau amrywiol yn rhan mor bwysig ym mywydau plant a phobl ifainc, dim ond un cyfeiriad at y rhyngrwyd neu gysylltiadau rhwng rhaglenni teledu a rhyngweithio ar-lein a gafwyd ymhlith yr holl ymatebion. Roedd hyn yn gwrthgyferbynnu'n gryf gyda'r pwyslais a roddwyd ar blatfformau newydd gan ymatebion yr oedolion (gweler adran 5 isod).

3.18 Mae 'na awgrym gref nad yw'r ymatebwyr hŷn yn teimlo fod y gwasanaethau newydd wedi'u hanelu atyn nhw o gwbl. Nid yw'n hysbys a fyddai'r un ymateb wedi digwydd pe bae holiadur gwahanol ar gyfer y gwahanol grwpiau oedran (h.y. pe na bae'r term 'sianel deledu i blant a phobl ifainc' wedi ei ddefnyddio yn y ddogfen ymgynghorol).

Oedolion (unigolion)

4.1 Cafwyd 103 o ymatebion gan oedolion unigol (h.y. ymatebwyr oedd yn siarad ar eu rhan eu hunain neu eu teuluoedd, yn hytrach nag ar ran sefydliad). Proffil demograffig yr unigolion hyn oedd:

Proffil rhyw	
Dynion	44
Menywod	53
[ni nodwyd yn y gweddill]	
Iaith ymateb	
Cymraeg	65
Saesneg	38

4.2 Crybwyllodd 84 o ymatebwyr eu bod yn ymateb ar eu rhan eu hunain. Roedden nhw'n cynnwys un cynhyrchydd teledu, un ymgynghorydd Technoleg Wybodaeth, un ymgynghorydd cyfryngau, un athro mewn ysgol gyfrwng Saesneg ac un Aelod o'r Cynulliad Cenedlaethol. Crybwyllodd 19 o ymatebwyr yn benodol eu bod yn ymateb ar ran eu teuluoedd.

Yr ymateb yn gyffredinol

4.3 Roedd yr ymateb i gynigion S4C yn gyffredinol gefnogol, gyda llawer o ymatebwyr unigol yn croesawu cynnydd yn yr oriau a ddarlledir ar gyfer plant a phobl ifainc. O'r 103 o ymatebion a dderbyniwyd, roedd 97 yn cytuno fod gwasanaeth neu floc o raglenni ar gyfer plant a phobl ifainc yn gwella'r ddarpariaeth gyhoeddus yn y Gymraeg i blant a phobl ifainc. Atebodd un na fyddai, ac nid atebwyd y cwestiwn gan 5 ymatebydd (C1).

"Byddai sefydlu gwasanaeth teledu Cymraeg at gyfer plant yn gam pwysig - efallai yn un o'r camau allweddol? - at gyrraedd y nod a osodwyd yn Iaith Pawb, sef polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru o gynyddu niferoedd siaradwyr Cymraeg gan 20% erbyn blwyddyn y Cyfrifiad nesaf sef 2011."

4.4 Roedd y rhan fwyaf o'r rhai a ymatebodd yn rhieni ac roedden nhw'n croesawu'r cynigion yn bennaf oherwydd eu bod yn awyddus i'w plant glywed mwy o Gymraeg gartref, yn enwedig felly yn achos y plant cyn oed ysgol. Roedd hyn yr un mor wir yn achos rhieni Cymraeg eu hiaith oedd am atgyfnerthu'r iaith ar yr aelwyd a'r rhieni di-Gymraeg, sy'n defnyddio S4C fel cyfrwng i ymestyn a chefnogi'r Gymraeg y mae eu plant yn ei dysgu yn yr ysgol neu feithrinfa. Mae pryder rhieni fod eu plant yn clywed gormod o Saesneg gartref yn elfen bwysig.

4.5 Roedd llawer o rieni yn croesawu'r Cynigion fel ateb i ddiffygion darpariaeth gyfredol S4C, yn enwedig ar y ddau begwn oedran h.y. y plant cyn oed ysgol a'r arddegau.

“Mae'r gwasanaeth/bloc hwn i blant yn eu harddegau yn GWBL ANGENRHEIDIOL yn fy marn i os ydym am gyfoethogi profiad cyfryngol ein Cymry Cymraeg ifanc.”

4.6 Roedd croeso hefyd i'r gwasanaeth newydd fel cyfle ychwanegol i blant a rhieni ddysgu Cymraeg gyda'i gilydd. Mae'r elfen addysgol yn bwysig i rieni di-Gymraeg, yn enwedig pan fo'u plant yn ifanc iawn.

4.7 Soniodd llawer o ymatebwyr y dylai plant a phobl ifainc Cymraeg eu hiaith gael yr un lefel o wasanaeth ag y mae siaradwyr Saesneg yn ei gael. Roedd y cynigion newydd, felly, yn eu hanfod yn decach na'r drefn bresennol. Ystyriwyd hyn fel cam arall yn y broses o normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg ymhlith pobl ifainc. Soniodd llawer o ymatebwyr hefyd y byddai'r gwasanaeth newydd yn gallu hybu hunaniaeth Gymreig pobl ifainc mewn ffordd gadarnhaol a chyfoes, a gwneud y Gymraeg yn berthnasol i'w bywydau.

“Welsh children deserve a Welsh alternative to CBBC”. (Mae plant Cymru yn haeddu dewis Cymraeg i CBBC")

“Plant yw dyfodol unrhyw iaith, a rhaid darparu'n briodol ar eu cyfer”.

4.8 Mae teimlad yn sylwadau rhai ymatebwyr nad yw'r sianel ddigidol gyfredol yn cael ei defnyddio ddigon rhwng 8 y bore a chanol dydd, ac y byddai'r gwasanaeth newydd yn fodd i gywiro hyn. Hefyd, mae rhai unigolion yn teimlo nad yw S4C2 yn cael ei gwerthfawrogi gan y fam-wasanaeth. Mae teimlad nad yw'r gwasanaeth wedi ei gyllido na'i farchnata yn ddigonol.

Brandio a marchnata'r gwasanaeth newydd

4.9 Roedd brandio a marchnata yn themâu cyson yn ymatebion yr oedolion unigol (a'r sefydliadau). Soniodd unigolion y gellid brandio dau neu fwy o wasanaethau mewn ffyrdd gwahanol ar un sianel er mwyn gwahaniaethu rhwng y gwasanaethau hynny. Crybwyllwyd CBBC/ BBC3 a Cbeebies/ BBC4 fel enghreifftiau llwyddiannus o hyn.

4.10 Roedd ymatebwyr yn credu y byddai angen brandio'r gwasanaeth newydd yn gryf iawn ac y byddai angen hunaniaeth wahanol ar gyfer pob grŵp oedran. Soniodd llawer o ymatebwyr am Planed Plant a Phlaned Plant Bach, a'u canmol, ac mae'n amlwg eu bod yn frandiau cryf sy'n cael eu hadnabod yn hawdd. Roedd pobl am i'r gwasanaeth newydd adeiladau ar hyn.

“Mae angen marchnata egniol ac effeithiol”

Diddordeb gan ddarparwyr trydydd parti mewn cynnig gwasanaeth tebyg (C2)

4.11 Dim ond 14 o sylwadau a dderbyniwyd ar y pwynt hwn. Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn teimlo nad oeddent yn gymwys i ateb, a dywedodd rhai nad oeddent yn deall y cwestiwn. Roedd y rhan fwyaf a atebodd yn credu na fyddai'r farchnad yn ddigon gwerthfawr i ddenu trydydd parti. Roedd rhai hefyd yn teimlo mai gwasanaeth cyhoeddus oedd teledu Cymraeg a'i bod hi'n rheidrwydd ar S4C i'w ddarparu.

4.12 Roedd rhieni yn enwedig am weld gwasanaeth nad oedd yn cael ei reoli gan rymoedd y farchnad, a doedden nhw ddim am weld llawer o hysbysebion. Soniwyd am y gwahaniaeth rhwng Cbeebies a Nick Jnr, gyda'r rhieni o blith yr ymatebwyr yn ffafrio'r cyntaf.

Nodweddion allweddol y gwasanaeth newydd

4.13 Ansawdd y rhaglenni oedd y nodwedd y soniwyd amdani amlaf. Crybwyllwyd CBBC a Cbeebies dro ar ôl tro fel y mathau o wasanaethau y byddai rhieni yn disgwyl i S4C eu hefelychu o ran safon. Y sianel arall a grybwyllwyd yn aml fel un yr oedd eu plant ifainc yn gwylio'n aml oedd Nick Jnr.

“Rhowch rywbeth iddyn nhw na allan nhw ei gael nunlle arall”.

4.14 Mae gwahanol ymatebwyr yn diffinio rhaglenni o ansawdd dda mewn ffyrdd gwahanol. Soniwyd

am wreiddioldeb yn aml, ond mae croeso hefyd i addasiadau sydd wedi eu dybio yn gelfydd. Soniodd rhieni fod clywed ffigurau poblogaidd yn siarad Cymraeg yn rhoi 'kudos' i'r iaith. Roedd y neges na ddylai S4C ofni dybio cartŵnau ac animeiddio da o bedwar ban byd mewn gwirionedd yn un glir dro ar ôl tro.

"Croesawaf yn frwd eich pwyslais ar raglenni GWREIDDIOL.. Yn y bôn stwff gwreiddiol unigryw Cymraeg sy'n mynd i werthu'r sianel, a'i lansio'n fenter newydd apelgar gyffrous."

"not dubbed oriental cartoons" (Nid cartwnau oriental wedi eu dybio)

"It is a good opportunity to look at all of the best parts of Welsh and English televison and create something bigger and better" (Mae'n gyfle da i edrych ar rannau gorau teledu Cymraeg a Saesneg a chreu rhywbeth mwy a gwell)

4.15 Roedd gwahaniaeth barn ynghylch gwerth ailddarllediadau a pha mor aml y dylid ailddarlledu. Ar y cyfan, doedd ymatebwyr ddim yn gwrthwynebu rhaglenni da o'r gorffennol yn cael eu hail-ddangos, ac roedd elfen o hiraeth yn amlwg wrth i rieni ddweud eu bod am rannu eu hoff raglenni o'u plentyndod nhw gyda'u plant.

4.16 Soniwyd am y gwrthdaro posibl rhwng gwerth addysgol y gwasanaeth ar un llaw, a'i werth adloniadol ar y llall. Gwnaed y pwynt mai adloniant 'ddylai fod yn flaenoriaeth, er y gallai'r gwasanaeth newydd gael rôl bwysig wrth gefnogi'r cwricwlwm.

4.17 Roedd rhaglenni ar gyfer dysgwyr yn flaenoriaeth i lawer o ymatebwyr, yn enwedig ymhlith rhieni ac athrawon yr arddegau sy'n dysgu Cymraeg. Soniodd athro o Dde Cymru am ddiffyg hyder rhai dysgwyr, sy'n ystyried gwylio rhaglenni Cymraeg fel gwaith caled.

"Gormod o ymdrech ar ôl ysgol, pan fo nhw eisiau ymlacio."

Oriau darlledu

4.18 Roedd dau brif gategori o sylwadau negyddol ynghylch y cynigion. Roedd nifer o ymatebwyr yn anhapus nad oedd yr oriau a awgrymir ar gyfer darlledu rhaglenni'r plant ieuengaf yn addas ar gyfer y ffordd y mae teuluoedd cyfoes yn byw. Mae rhieni sy'n gweithio, a'u plant mewn meithrinfeydd yn ystod y dydd, yn chwilio yn bennaf am adloniant i'w plant yn ystod yr 'awr noswylio' rhwng 6 a 7 neu 7.30. Roedden nhw'n siomedig, felly, na fyddai'r gwasanaeth yn darlledu rhaglenni ar gyfer plant dan 5 oed yn gynnar gyda'r hwyr. Un o'r rhesymau dros boblogrwydd Cbeebies yw ei fod ar gael yn ystod y cyfnod hwn.

4.19 Soniodd nifer o ymatebwyr hefyd nad oedd angen rhaglenni ar gyfer plant 5 - 10 oed tan ar ôl 4 y prynhawn, gan mai dyma pryd y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dychwelyd o'r ysgol. Roedd yr ymatebwyr hyn y credu y dylid darlledu rhaglenni i blant dan 5 oed tan 4 o'r gloch.

4.20 Heblaw'r pwyntiau y sonnir amdanynt yn 5.18-19 uchod, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion i'r cynigion am yr oriau darlledu yn rhai cadarnhaol, er bod teimlad na fydd yr oriau a awgrymir dal yn ddigon i allu cystadlu gyda gwasanaethau Saesneg cyffelyb. Mae pobl yn ymarferol ar y cyfan, fodd bynnag, ac yn derbyn fod cyfyngiadau ariannol a gofod darlledu a bod y gwasanaethau newydd a awgrymir yn gwella'r ddarpariaeth. Y mae, yn ei hanfod, anghysondeb rhwng tri gwasanaeth a dwy sianel, ac mae pobl felly yn derbyn y bydd y gwasanaeth yn gyfaddawd i raddau.

Cynulleidfaoedd targed

4.21 Roedd y rhan fwyaf o'r unigolion a ymatebodd yn gadarnhaol ynghylch y cynulleidfaoedd targed a amlinellwyd, a'r dosraniad oedran. Roedd cytundeb bod angen sicrhau rhaniad clir rhwng plant a phobl ifainc 12 - 16 oed a'r plant ieuengaf.

4.22 Roedd nifer o ymatebwyr yn dweud y dylid ystyried teilwrio rhaglenni at wahanol alluoedd ieithyddol. Roedd awgrym nad oedd rhaid i raglenni dysgwyr fod yn amhoblogaidd ymhlith siaradwyr iaith gyntaf.

4.23 Roedd cytundeb bod angen rhoi gwybodaeth am raglenni plant 5 - 10 oed dan bennawd PLANT neu KIDS ar y Canllawiau Rhaglenni Electronig (EPG). Soniodd ymatebwyr fod yr arddegau yn chwilio am eu rhaglenni hwythau yn y bwydlenni ar gyfer oedolion, gan awgrymu felly y dylai rhaglenni'r arddegau fod ar brif sianel S4C, ond wedi eu brandio'n glir mewn bloc. Soniwyd am raglenni C2 ar Radio Cymru fel enghraifft o hyn. Roedd teimlad, fodd bynnag, y gallai hyn ddigio gwylwyr hŷn.

4.24 Soniodd ambell ymatebydd fod angen rhai rhaglenni ar gyfer dysgwyr, i'w defnyddio mewn ysgolion.

Iaith y gwasanaeth newydd

4.25 Y prif ofid arall ynghylch y Cynigion oedd polisi iaith y gwasanaeth newydd. Roedd y cymalau '(g)wasanaeth Cymraeg yn bennaf' a 'bydd cyfran sylweddol o'r rhaglenni'n rhaglenni gwreiddiol, wedi'u cynhyrchu yng Nghymru' yn y ddogfen ymgynghorol yn rhai oedd yn poeni llawer o ymatebwyr - yn unigolion ac yn sefydliadau - am eu bod yn rhy niwlog.

4.26 Barn gymysg a leisiwyd ar bolisi iaith y gwasanaeth newydd, ond mae'n deg dweud fod y rheini oedd yn poeni eisiau i S4C ddatgan yn ddi-flewyn ar dafod mai gwasanaeth cyfan-gwbl Gymraeg fyddai'r gwasanaeth newydd. Roedd llawer o ymatebwyr yn sôn y byddent yn disgwyl i'r gwasanaeth fod yn uniaith Gymraeg.

"Plis plis gochelwch rhag ildio i felltith dwyieithrwydd"

4.27 Soniodd ymatebwyr eu bod yn ystyried datblygu sgiliau ieithyddol plant fel rhan o ddyletswydd y Cyfryngau, yn enwedig ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus. Mae'r teledu yn elfen bwysig o ddatblygiad iaith plant. Mae plant yn defnyddio teledu Saesneg, yn ddiarwybod, yn y ffordd hon; roedd ymatebwyr yn dadlau y dylai teledu Cymraeg wneud hyn i raddau llawer helaethach nag yw'r arfer ar hyn o bryd.

4.28 Soniodd llawer o ymatebwyr y dylai'r iaith a ddefnyddir ar y gwasanaeth newydd fod yn ddealladwy i ddysgwyr, a gofynnodd rhai rhieni am ddefnydd gofalus a phwrpasol o is-deitlau Cymraeg i helpu rhieni di-Gymraeg.

4.29 Yr argraff gyffredinol a geir o'r sylwadau amrywiol ar iaith yw fod pobl yn disgwyl i S4C ystyried y mater hwn o ddifrif a sicrhau fod darpariaeth ar gael i bob gallu ieithyddol.

Cyllido'r gwasanaeth newydd

4.30 Gofynnodd nifer o ymatebwyr gwestiynau ynghylch cyllido'r gwasanaeth newydd. Roedden nhw'n ymddangos yn amheus a fyddai'n bosibl darparu'r gwasanaeth estynedig newydd at safon ddigon derbyniol heb gyllid ychwanegol. Mae teimlad cryf fod S4C eisoes yn cael ei dan-gyllido - gydag ailddarllediadau cyson yn profi hyn - ac y byddai neilltuo arian i'r gwasanaeth newydd yn niweidio'r ddarpariaeth gyfredol.

4.31 Awgrymodd ambell ymatebydd y dylai S4C geisio am gyllid ychwanegol ar gyfer y ddarpariaeth i blant a phobl ifainc gan yr Adran Ddiwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon, gan ddefnyddio'r ddadl y dylai fersiwn Gymraeg o ddarpariaeth blant y BBC fod ar gael yn naturiol i bawb.

Rhyngweithio

4.32 Soniodd ymatebwyr am bwysigrwydd cynnwys y gynulleidfa darged, drwy'r botwm coch, safle gwe, gêmau yn gysylltiedig â rhaglenni ac ati - ond hefyd drwy eu cynnwys yn y broses o gynllunio a chreu rhaglenni.

"Adults' impressions of what teenagers find interesting is often way off the mark!" (Mae syniad oedolion am yr hyn sydd o ddiddordeb i'r arddegau yn aml yn bell ohoni!)

Cysondeb a hygyrchedd

4.33 Roedd sicrhau fod y gwasanaeth ar gael yn gyson ac yn hawdd yn thema gyson. Roedd teimlad y

dylid sicrhau fod rhaglenni'r plant 5 - 10 oed yn enwedig yn cael eu cynnwys dan bennawd KIDS ar y canllawiau rhaglenni electronig (EPG), fel bod plant yn gwybod ble i gael hyd i'r gwasanaeth, a phryd. Roedd teimlad fod y ddarpariaeth bresennol yn fylchog ac anghyson, ac felly yn drysu'r gynulleidfa.

4.34 Roedd cred fod yr arddegau yn cael hyd i'w rhaglenni ar y bwydlenni oedolion arferol, ac y byddai felly yn bwysig brandio eu gwasanaeth newydd nhw yn glir ac yn apelgar.

Y gofod darlledu a darlledu gweithrediadau'r Cynulliad (C6)

4.35 Y prif wahaniaeth rhwng barn yr unigolion a barn y sefydliadau yn eu hymatebion i'r ymgynghoriad oedd eu hagweddau tuag at ddarlledu gweithrediadau'r Cynulliad Cenedlaethol. Er i ambell unigolyn fynegi pryder am oblygiadau'r gwasanaeth newydd ar ddarlledu'r Cynulliad, roedd y rhan fwyaf o unigolion o blaid blaenoriaethu'r gwasanaeth i blant a phobl ifainc.

"Wrth reswm mae'n bwysig cyfathrebu beth sy'n digwydd yn y Bae ond mae cryfhau diwylliant Cymraeg ymhlith pobl ifanc yn bwysicach na darlledu'n fyw o'r Senedd".

"Dylid rhoi'r flaenoriaeth yn sicr i ddarparu sianel Gymraeg i blant a phobl ifanc. Os nad oes digon o gyllid i gynnal y ddau beth - plant yn sicr ddylai gael y flaenoriaeth yn fy marn i. Apelio at gynulleidfa gyfyng y mae'r darllediadau o'r Cynulliad."

"It is crazy to suggest ending the service at the time when the Assembly's powers have been extended by the 2006 legislation and when the Assembly will be growing and accruing new powers.This is time to strengthen the service and not to end it."(Mae'n wirion awgrymu rhoi diwedd i'r gwasanaeth ar adeg pan fo pwerau'r Cynulliad wedi'u cynyddu gan ddeddfwriaeth 2006 a phan fydd y Cynulliad yn tyfu ac yn ennill pwerau newydd. Mae'n adeg i gryfhau'r gwasanaeth, nid ei ddileu.)

4.36 O'r rhai a roddodd farn ar y mater hwn, roedd 5 ymatebydd o blaid Opsiwn 1, 23 o blaid Opsiwn 2, ac 8 o blaid Opsiwn 3 neu gael hyd i ffordd arall o ddelio gyda'r sefyllfa. Nododd sawl un ei bod yn afresymol disgwyl i S4C ddarlledu holl weithrediadau'r Cynulliad gan mai yn Saesneg y cynhelir y rhan fwyaf ohonynt.

"Credaf mai trefniadaeth gan drydydd parti/consortiwm fyddai orau i ddarlledu gweithrediadau'r Cynulliad, gan ryddhau'r sianel i blant yn unig. Un peth sydd wedi fy nharo yw pam y dylai Sianel Gymraeg S4C gario'r baich hwn, a'r rhan fwyaf o weithrediadau'r Cynulliad yn Saesneg?"

4.37 Y brif ddadl yn erbyn Opsiwn 1 yw'r dryswch y byddid yn ei greu pe na bae rhaglenni plant a phobl ifainc ar gael yn yr un lle ac ar yr un amseroedd yn gyson.

4.38 Roedd llawer o'r ymatebwyr unigol yn cefnogi Opsiwn 2.

4.39 Soniodd rhai y dylid ystyried Opsiwn 3 yn bellach, neu gael hyd i ffordd arall o ddarlledu'r Cynulliad, drwy'r BBC neu'r botwm coch. Awgrymwyd hefyd ddarlledu gweithrediadau'r Cynulliad Cenedlaethol ar ddiwedd yr amserlen blant a phobl ifainc, h.y. wedi eu recordio, yn hytrach nag yn fyw.

"This would allow coverage of the National Assembly by choice, and not interfere with the new service to children." (Byddai hyn yn galluogi pobl i ddewis gwylio'r Cynulliad Cenedlaethol, heb amharu ar y gwasanaeth newydd i blant)

Oedolion (Sefydliadau)

5.1 Derbyniwyd 40 o ymatebion gan sefydliadau i'r ddogfen ymgynghorol. Rhoddir manylion am broffil iaith yr ymatebwyr a'r mathau o sefydliadau a ymatebodd isod. Mae rhestr gyflawn o'r sefydliadau a ymatebodd yn Atodiad 3.

Iaith ymateb	
Cymraeg	30
Saesneg	8
Dwyieithog	2
Math o sefydliad	
Addysgol/ sefydliadau ieuenctid	12
Teledu (darlledwyr, cynhyrchwyr, dosbarthwyr)	12
Awdurdodau Lleol	2
Sefydliadau Iaith Gymraeg	4
Cyrff llywodraeth/ sector gyhoeddus	3
Eraill	7

Yr ymateb yn gyffredinol

5.2 Yn gyffredinol, roedd y pwyntiau a godwyd yn ymatebion y sefydliadau yn debyg iawn i'r rhai a godwyd gan unigolion yn adran 5 uchod. Pan fo gwahaniaethau, cyfeirir atynt yn y paragraffau perthnasol. Pan fo sefydliadau yn gwneud sylwadau penodol ar faterion penodol, fe'u henwir lle bo'n berthnasol.

5.3 Fel gyda'r unigolion a ymatebodd, roedd y rhan fwyaf o'r sefydliadau yn gryf o blaid Cynigion S4C i gynyddu'r ddarpariaeth ar gyfer plant a phobl ifainc, gyda 29 yn ateb 'ydwyf' i Gwestiwn 1. Er nad atebodd unrhyw sefydliad yn negyddol, atebion anuniongyrchol a gafwyd gan 11 o'r ymatebwyr.

"Mae'r gwasanaeth yma yn gyfle unigryw i ni fel cenedl ac mae'r sylw blaenllaw sy'n cael ei rhoi i'r iaith Gymraeg yn y ddogfen ymgynghorol yn cael ei groesawu'n fawr iawn" (Opus)

5.4 Nododd sawl ymatebydd fod y sefyllfa 2-sianel 3-cynulleidfa wastad yn mynd i greu dryswch.

5.5 Roedd cysyniadau am degwch a chydraddoldeb cyfle yn amlwg yn ymatebion y sefydliadau, fel gyda'r unigolion. Roedd ymatebwyr yn credu y byddai'r gwasanaeth newydd yn welliant mawr ar y ddarpariaeth gyfredol, er nad oedd yn cynnig yr un cyfleoedd i blant a phobl ifainc Cymraeg eu hiaith â'r hyn a geir gan eu cyfoedion sy'n defnyddio Saesneg fel cyfrwng.

"Cred Cymdeithas yr Iaith Gymraeg fod gan blant a phobl ifanc Cymru yr hawl i dderbyn gwasanaeth cyflawn trwy gyfrwng y Gymraeg." Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

5.6 Gwnaed nifer o bwyntiau technegol gan sefydliadau a chan arbenigwyr teledu. Roedd y rhain yn cynnwys sylwadau ac awgrymiadau ynghylch hybu rhaglenni ar draws gwasanaethau, platfformau aml-gyfrwng a materion yn ymwneud â gofod darlledu. Cymharwyd y sefyllfa hefyd gyda gwasanaethau teledu mewn ieithoedd lleiafrifol yn rhannau eraill o'r byd e.e. gan Mercator.

5.7 Soniodd llawer o sefydliadau am eu gofid am yr effaith y byddai'r gwasanaeth newydd yn ei chael ar ddarlledu'r Cynulliad - gan gynnwys Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth y Cynulliad. Soniodd sefydliadau eraill am y gofid hwn hefyd, gan gynnwys Undeb Cenedlaethol y Ffermwyr, Cyswllt Amgylchedd Cymru , Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Strata Matrix a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru.

*"Whilst we recognise the importance of increased children's programming we are concerned about the impact that this might have on coverage of Assembly proceedings". (*Tra'n cydnabod pwysigrwydd ehangu gwasanaethau plant rydyn ni'n pryderu am yr effaith y gallai hyn ei gael ar ddarlledu gweithgareddau'r Cynulliad.) NFU

"In the interests of a fair and open government, I believe it is vital that debates in the Assembly chamber

are accessible to all." Llywodraeth Cynulliad Cymru

5.8 Pwysleisiodd sefydliadau Cymraeg bwysigrwydd y gwasanaeth newydd wrth ddatblygu a hybu'r iaith ymhlith cenedlaethau'r dyfodol e.e. Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, Twf, Mudiad Ysgolion Meithrin.

Brandio a marchnata'r gwasanaeth newydd

5.9 Pwysleisiodd llawer o sefydliadau bwysigrwydd brandio a marchnata. Roedd hysbysebu rhaglenni'r naill sianel ar y llall hefyd yn bwysig, gan fod rhai ymatebwyr o'r farn y gallai gwasanaethau eraill S4C golli gwylwyr wrth iddynt fudo i'r gwasanaeth newydd i blant a phobl ifainc.

5.10 Roedd rhai o'r sylwadau a wnaed ynghylch brandio a marchnata yn dwyn cymariaethau gyda sianeli a gwasanaethau eraill. Roedd ymatebwyr am weld S4C yn mentro ac yn defnyddio technegau marchnata blaengar i gyrraedd y cynulleidfaoedd targed. Mae'r arddegau yn gynulleidfa dda i ddatblygu technegau cyfathrebu arloesol yn eu plith.

5.11 Soniodd ymatebwyr eraill, wrth grybwyll yr angen i hybu rhaglenni ar draws holl wasanaethau S4C, fod llawer o gynnyrch presennol S4C, er wedi ei anelu at oedolion, hefyd yn denu oedolion ifainc a'r arddegau e.e. dramâu fel Con Passionate, Pobl y Cwm a rhai rhaglenni dogfen fel rhaglenni teithio Dewi Pws. Dywedodd rhai y gallai S4C golli rhai gwylwyr 'fydd yn mudo at y gwasanaethau newydd yn lle. Pwysleisiwyd yr angen i hysbysebu rhaglenni yn effeithiol rhwng un gwasanaeth a'r llall.

5.12 Awgrymodd nifer o ymatebwyr y dylid marchnata'r gwasanaeth newydd ar y cyd gyda phartneriaid allweddol megis yr Urdd a Mudiad Ysgolion Meithrin mewn digwyddiadau i blant a phobl ifainc, a datblygu partneriaethau marchnata gyda'r cyfryw gyrff.

Diddordeb gan drydydd parti mewn cynnal gwasanaeth tebyg (C2)

5.13 13 o'r 40 o ymatebwyr a roddodd sylwadau ar y cwestiwn hwn. Roedd eu barn yn ddigon tebyg i ymatebion yr unigolion i'r ymgynghoriad. Roedd rhanddeiliaid yn credu mai dim ond drwy fuddsoddiad cyhoeddus y gellid cynnal gwasanaeth o'r fath gyda rhaglenni gwreiddiol safonol.

5.14 Pwysleisiodd un ymatebydd bwysigrwydd rôl darlledwyr cyhoeddus wrth ddarparu gwasanaeth gwir ddemocrataidd. (Cymdeithas yr Iaith Gymraeg).

5.15 Yng nghyswllt y cwestiwn hwn, ystyrir bod y cyfyngiadau ar hysbysebu melysion a bwydydd llai iach yn debyg o gyfyngu ar botensial masnachol y gwasanaeth yn bellach. Mae ymatebwyr o'r farn y bydd hyn yn arwain at leihad cyffredinol yn y nifer o sianeli masnachol i blant, ac felly yn gyfle i ddarlledwyr cyhoeddus gamu i'r bwlch a chynyddu eu cynulleidfa.

Nodweddion allweddol y gwasanaeth newydd

5.16 O ran nodweddion allweddol, rhaglenni o safon uchel a grybwyllwyd amlaf gan y sefydliadau, fel gyda'r unigolion. Roedd y sefydliadau yn fwy brwd dros raglenni gwreiddiol, a gofynnwyd i S4C barhau i gomisiynu rhaglenni gwreiddiol, yn enwedig gan gwmnïau Cymreig.

5.17 Pwysleisiodd ymatebwyr eu bod yn awyddus i weld S4C yn parhau gyda'i safon uchel o raglenni ar gyfer plant a phobl ifainc - a sicrhau fod y pobl ifainc eu hunain yn teimlo perchenogaeth dros y gwasanaeth.

5.18 Rhoddwyd croeso brwd gan gwmnïau cynhyrchu, PACT a TAC i'r cyfeiriadau yn y ddogfen ymgynghorol at awydd S4C i gomisiynu rhaglenni gwreiddiol o Gymru. Roedd yr ymatebwyr hyn i gyd yn datgan eu parodrwydd i gydweithio gydag S4C. Gofynnwyd yn benodol am gyfresi drama, o leiaf un i blant 6 - 10 oed ac un i'r grŵp hŷn.

5.19 Roedd rhai ymatebwyr yn credu y byddai sicrhau ystod eang ac amrywiol o raglenni yn un o'r prif heriau.

5.20 Roedd ambell ymatebydd yn gofyn am roi sylw dyladwy i blant a phobl ifainc ag anghenion

arbennig (MYM, Acen), yn nhermau rhaglenni wedi eu hanelu'n benodol atyn nhw, a hefyd drwy eu portreadu mewn ffordd gadarnhaol o fewn rhaglenni yn gyffredinol.

Oriau darlledu

5.21 Roedd y sefydliadau a ymatebodd yn gyffredinol groesawu'r cynnydd mewn oriau darlledu - ond gan gofio am y sefydliadau oedd am ddiogelu darllediadau'r Cynulliad Cenedlaethol. Roedd y rhan fwyaf o'r sefydliadau am weld cynifer o oriau â phosibl. Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn hapus gyda'r amserlen a awgrymwyd, heblaw am fater plant cyn oed ysgol, fel y nodir isod. Soniodd un ymatebydd y gallai'r darllediadau gychwyn am 7 y bore, yn hytrach na 6.

5.22 Roedd mudiadau plant (MYM, Twf) yn rhannu cred rhai unigolion bod angen rhaglenni i blant bach yn gynnar gyda'r hwyr. Cafwyd rhai awgrymiadau y dylid ailddarlledu rhaglenni mewn 'loop', fel y mae Cbeebies yn ei wneud, fel bod rhaglenni Cymraeg ar gael drwy'r amser i blant bach, gartref ac yn y feithrinfa. Y prif sylw a wnaed oedd yr angen am raglenni addas i'r teulu a'r plant lleiaf rhwng 4 a 6 yr hwyr. Mae hyn, eto, yn debyg i farn y rhieni a ymatebodd fel unigolion. Mae rhieni am wybod y bydd rhaglenni addas ar gyfer plant dan 5 oed yn ystod yr awr neu ddwy brysur ar ôl dychwelyd o'r gwaith.

5.23 Cysondeb yr amserlen oedd y thema fwyaf cyson, h.y. ei bod hi'n bwysig fod blant a phobl ifainc yn gwybod yn union pryd fydd rhaglenni yn cael eu darlledu a bod yr amser yn gyson. Roedd newid amseroedd yn ystod gwyliau o'r ysgol yn dderbyniol - pan fo rheswm da dros hynny. Mae plant a phobl ifainc yn mynnu cysondeb ac os ydyn nhw'n cael eu siomi fe gefnan nhw ar y gwasanaeth.

"Rhaid i sianel newydd fod ag oriau cyson. Yn yr oes uniongyrchol hon, mae plant yn gynulleidfa sy'n gofyn am ymdrech gyson i'w cadw'n hapus ac wedi eu diddanu'n gyson!" RhAG

"Annoeth fyddai newid yr oriau yn rhy fympwyol gan y byddai'r siom o ganfod nad oedd y rhaglen ddisgwyliedig (ac efallai'n ffefryn) ddim ar gael ar yr amser arferol yn gallu achosi diflastod ac amharodrwydd i edrych eto, yn enwedig yn achos y plant iau". NUT Cymru

5.24 Cafwyd un awgrym y gellid defnyddio fersiwn ar y 'watershed' i ddenu'r arddegau h.y. hysbysebu'r ffaith na fydd rhaglenni plant bach ar ôl 7 yr hwyr.

Cynulleidfaoedd targed

5.25 Cafwyd nifer o sylwadau ynghylch dosraniad oedran y cynulleidfaoedd targed - rhai yn anghytuno gyda'r awgrymiadau yn y ddogfen ymgynghorol. Soniodd sefydliadau addysgol a mudiadau pobl ifainc mai 14-19 oed oedd y rhaniad o ran y cwricwlwm. Roedd teimlad na fyddai rhaglenni ar gyfer 10 - 16 oed yn gweithio, gan fod pobl ifainc 14 - 19 oed yn wahanol iawn eu chwaeth a'u haeddfedrwydd i rai 10 - 13 oed. Gwnaed y pwynt fod pobl ifainc wastad am wylio rhaglenni sydd wedi eu hanelu at bobl sydd ychydig yn hŷn na nhw.

5.26 Soniodd rhai mudiadau plant fod 5 - 10 oed hefyd yn ystod oedran rhy eang, a bod chwaeth plant yn newid o gwmpas 7 oed. Mae hyn yn cyd-fynd â'r Cyfnod Sylfaen addysg, sydd wedi ei anelu at blant 3 - 7 oed.

5.27 Soniodd Twf fod angen ystyried rhaglenni ar gyfer teuluoedd a babanod (dan 12 mis), ond ni chrybwyllwyd a ddylai'r rhaglenni hyn fod ar y gwasanaeth newydd ynteu ar y sianel ddigidol bresennol. Soniodd Twf y dylid anelu'r rhaglenni hyn at rieni sydd wedi derbyn addysg gyfrwng Gymraeg ond sydd heb ddefnyddio'r iaith ers hynny, ac felly yn ddihyder yn yr iaith.

5.28 Roedd rhai ymatebwyr, sefydliadau yn ymwneud ag addysg yn bennaf (ysgolion, undebau athrawon) am weld y gwasanaeth newydd yn adlewyrchu datblygiadau yn y cwricwlwm. Soniodd llawer o sefydliadau am bwysigrwydd rhaglenni addas ar gyfer dysgwyr, gydag Acen yn enwedig yn awgrymu strwythur bendant i dargedu'r gynulleidfa yn ôl gallu ieithyddol yn ogystal ag oedran.

Iaith y gwasanaeth newydd

5.29 Roedd sylwadau am iaith y sianel yn ymddangos yn gyson iawn yn ymatebion y sefydliadau, gyda nifer - Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn enwedig – yn dadlau'n gryf iawn na ddylai fod unrhyw amwysedd ac mai sianel uniaith Gymraeg y dylai hi fod. Roedd y BBC yn un rhanddeiliad allweddol oedd am gael eglurdeb ar y cydbwysedd ieithyddol rhwng y Gymraeg a'r Saesneg ar y gwasanaeth newydd.

"Cred Cymdeithas yr Iaith Gymraeg fod gan blant a phobl ifanc Cymru yr hawl i dderbyn gwasanaeth cyflawn trwy gyfrwng y Gymraeg ac felly ni ddylid creu amheuaeth ar iaith y gwasanaeth o'r cychwyn cyntaf fel hyn." Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

5.30 Mae llawer o ymatebwyr, yn unigolion ac yn sefydliadau, yn dweud bod angen darparu ar gyfer rhieni di-Gymraeg sydd yn codi eu plant yn ddwyieithog - gyda sylw arbennig i deuluoedd o'r fath sydd â chanddyn nhw blant oed cyn ysgol. Y neges gyffredinol yw fod gan ymatebwyr farn bendant iawn ar y pwnc hwn a'u bod yn credu y dylai S4C anelu at ddarparu rhaglenni addas i bob lefel ieithyddol.

Cyllido'r gwasanaeth newydd

5.31 Roedd yr angen am gyllid digonol i'r gwasanaeth newydd yn codi yn gyson - yn ymatebion unigolion a sefydliadau. Roedden nhw'n ymddangos yn amheus a fyddai'n bosibl darparu'r gwasanaeth estynedig newydd at safon ddigon derbyniol heb gyllid ychwanegol. Mae teimlad cryf fod S4C eisoes yn cael ei dan-gyllido - gydag ailddarllediadau cyson yn profi hyn - ac y byddai neilltuo arian i'r gwasanaeth newydd yn niweidio'r ddarpariaeth gyfredol.

5.32 Roedd rhai ymatebwyr yn gofidio am y diffyg adnoddau ac yn enwedig ddatganiad S4C nad yw'n gofyn am gyllid ychwanegol ar hyn o bryd. Roedd ymatebwyr yn gofyn pa effaith y byddai hyn yn ei chael ar ymrwymiad y sianel i raglenni gwreiddiol.

Rhyngweithio

5.33 Roedd y sefydliadau yn rhoi llawer mwy o bwyslais ar ddarpariaeth aml-blatfform a chyfleoedd rhyngweithio nag oedd yr unigolion. Soniodd y BBC, er enghraifft, fod agweddau pobl ifainc tuag at blatfformau darlledu, a'u defnydd ohonyn nhw, yn newid yn gyflym. Awgrymwyd neilltuo rhannau o'r gwasanaeth newydd ar gyfer platfformau band llydan neu symudol yn unig.

"The rapidly changing attitudes of the target audiences to media, mobility and choice suggest that other delivery methods might become as, if not more, effective. Hence, the Authority might wish to consider launching a new service (or parts of it for specific audiences) on broadband and mobile platforms only". BBC

5.34 Soniodd ymatebwyr eraill hefyd am bwysigrwydd sicrhau fod y gwasanaeth ar gael ar lawer platfform a defnydd o gyfrifiaduron, y rhyngrwyd, ffônau symudol a band llydan, i gyd-weddu gyda defnydd pobl ifainc o'r technegau hyn.

"Dylai'r gwasanaeth fod yn aml-blatfform, Cymraeg, cyson o ran amserlen, eang o ran diddordebau, a phenodol o ran cynulleidfa darged. Dylid gwneud cyswllt pendant gydag arferion cyfryngol plant a phobl ifanc gan ddefnyddio safleoedd gwe. Dylai'r gwasanaethau hyn gynnig cyfleoedd i blant a phobl ifanc gynyddu eu hymwybyddiaeth a'u sgiliau o lythrennedd cyfryngol." Mercator

Cysondeb a hygyrchedd

5.35 Roedd y sefydliadau yn ogystal â'r unigolion yn pwysleisio pwysigrywdd hanfodol cysondeb y gwasanaeth newydd. Nodwyd y byddai'n well ganddynt weld rhaglenni S4C Digidol yn cael eu hamharu gan ddarllediadau o'r Eisteddfod, er enghraifft.

"Yn yr amgylchfyd digidol credwn ei bod yn hanfodol i gael presenoldeb cyson, hawdd cael gafael arno, ar gyfer plant yn yr iaith Gymraeg." Grŵp Boomerang

"Mae cynnig amserlen gyson a sefydlog yn un o'r elfennau pwysicaf wrth geisio meithrin patrymau gwylio sefydlog" Mercator

Y gofod darlledu a darlledu gweithrediadau'r Cynulliad (C6)

5.36 Roedd ymatebion y sefydliadau i Gwestiwn 6 a materion yn ymwneud â darlledu'r Cynulliad Cenedlaethol yn amrywiol ac yn fanwl, gyda barn yn amrywio rhwng gwahanol sefydliadau. Nododd nifer o sefydliadau sy'n rhanddeiliaid nad oedden nhw'n teimlo fod yr opsiynau a awgrymwyd yn y ddogfen yn cynnig yr ateb gorau, ac roedd rhai - gan gynnwys Cynulliad Cenedlaethol Cymru - yn galw am drafodaeth bellach ar y mater.

5.37 Dywedodd sawl sefydliad (gan gynnwys Bwrdd yr Iaith Gymraeg) fod darllediadau byw o weithrediadau seneddol yn tyfu yn fwyfwy ran o lywodraethau democrataidd drwy'r byd, ac y byddai colli'r gwasanaeth hwn yn gam mawr yn ôl, yn enwedig ar adeg pan fo pwerau'r Cynulliad Cenedlaethol yn cynyddu.

"Roedd penderfyniad S4C a'r BBC yn 1999 i greu partneriaeth ddarlledu trafodion y Cynulliad Cenedlaethol yn un unigryw a blaengar. Byddai colli'r gwasanaeth hwn yn gam yn ôl, yn enwedig ar gyfnod pan fo'r Cynulliad yn cael mwy o bwerau ac yn awyddus i weld dinasyddion Cymru yn ymwneud â'i waith." Bwrdd yr Iaith Gymraeg

" [This would] undermine the Assembly's core philosophy of openness and transparency, particularly in light of the Assembly's recent reaffirmation of its commitment to increasing public awareness and understanding of the Assembly." (Byddai hyn "yn tanseilio athroniaeth waelodol y Cynulliad o fod yn agored ac yn dryloyw, yn enwedig o ystyried ymrwymiad diweddar y Cynulliad i gynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd o'r Cynulliad.") Cyswllt Amgylchedd Cymru

5.38 Yn nhermau ymatebion penodol i Gwestiwn 6, roedd 3 sefydliad yn ffafrio Opsiwn 1, 8 yn ffafrio Opsiwn 2 ac 11 yn ffafrio Opsiwn 3 neu ateb arall. Ni chafwyd ymateb uniongyrchol i'r cwestiwn hwn gan 18 o ymatebwyr.

5.39 Ar y cyfan, doedd mudiadau a sefydliadau plant a phobl ifainc e.e. yr Urdd ddim o blaid cymysgu darllediadau o'r Cynulliad a rhaglenni plant ar un sianel.

"Credwn yn gryf y dylai sianel blant ddarparu gwasanaeth di-dor 7 diwrnod yr wythnos er mwyn denu a chadw gwylwyr ifanc, ac o'r herwydd credwn mai opsiwn 2 yw'r unig ddewis fydd yn cynnig sefyllfa ddelfrydol i blant." Mudiad Ysgolion Meithrin

5.40 Awgrymodd nifer o ymatebwyr ddefnyddio'r botwm coch, fel y maen nhw ar hyn o bryd yn ei wneud gyda digwyddiadau fel y Sioe Frenhinol a'r Eisteddfodau. Roedd Llywodraeth y Cynulliad yn un o'r cyrff oedd yn awgrymu y dylid ystyried y syniad hwn, ynghyd ag awgrymu darlledu pigion o'r Cynulliad ar ôl y rhaglenni plant a phobl ifainc a darlledu byw ar y we. Tra bo eraill, gan gynnwys Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ystyried gwe-ddarlledu fel ateb yn yr hir dymor, maent o'r farn nad oes gan ddigon o bobl fynediad i'r rhyngrwyd ar hyn o bryd.

"I would suggest that using the red button option could give viewers the ability to access Assembly debates at the same time as a full service for children is provided on the channel." Llywodraeth Cynulliad Cymru

5.41 Un opsiwn (a gynigiwyd gan Gymdeithas yr Iaith Gymraeg) oedd defnyddio S4C2 ar gyfer darllediadau o'r Cynulliad rhwng 9.30 y bore a 3.30 y prynhawn, gyda rhaglenni i'r plant hŷn yn y bore bach a rhwng 3.30 a 9.30/10 yr hwyr, gyda rhaglenni ychwanegol dros y penwythnos ac yn ystod gwyliau. Byddai hyn yn galluogi'r gwasanaeth newydd i ddarlledu ar gyfer plant dan 7 oed yn unig, rhwng 6 y bore a 7 yr hwyr bob dydd.

5.42 Mae nifer o sefydliadau yn gofyn i S4C ystyried Opsiwn 3 neu ddewisiadau eraill yn bellach. Maent yn cydnabod na fyddai rhai o'r dewisiadau eraill yn bosibl heb gyllid ychwanegol.

5.43 Mae'r BBC wedi datgan na fydd unrhyw ofod darlledu sbâr cyn ac ar ôl oriau presennol darlledu'r

Cynulliad ar S4C2 wedi i'r gwasanaethau analog gael eu diffodd. Y bwriad yw symud S4C2 i Multiplex B pan ddigwydd hyn, a bydd gwasanaethau'r BBC yn defnyddio'r gofod sbâr y naill ochr a'r llall i wasanaeth y Cynulliad. Awgrymodd y BBC, fodd bynnag, ei bod yn bosibl y bydd digon o ofod sbâr ar gyfer y gwasanaethau newydd ar mutliplex SDN.

6.*"WEL would only accept Option 2, if we were assured that third parties would be taking over the provision of carriage for this service." (*Byddai CAC yn derbyn Opsiwn 2, dim ond o dderbyn sicrwydd fod trydydd parti yn ymgymryd â chario'r gwasanaeth.) Cyswllt Amgylchedd Cymru

Sylwadau eraill

5.44 Mynegwyd peth gofid na fu'r ymgynghoriad ei hun yn ddigon eang nac yn hawdd ei ddefnyddio. Yn benodol, roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y dylai S4C fod wedi cynnal trafodaethau wyneb yn wyneb gyda phobl ifainc, y prif randdeiliaid, ac y dylid bod wedi ymgynghori'n ehangach gyda defnyddwyr gwasanaeth darlledu'r Cynulliad ar S4C2.

5.45 Roedd sylwadau hefyd (gan sefydliadau ac unigolion) nad oedd y ddogfen ymgynghorol yn hawdd iawn ei darllen ac y byddai wedi bod yn fanteisiol cael crynodeb mewn iaith seml a mwy dealladwy.

Crynodeb o'r Darganfyddiadau

6.1 Plant a Phobl Ifainc

- Mae plant a phobl ifainc dan 14 oed yn debygol o groesawu'r dewis ehangach o raglenni y bydd gwasanaethau newydd arfaethedig S4C yn ei gynnig.

- Roedden nhw yn cydnabod gwerth yr iaith Gymraeg i'w bywydau ac i'w balchder yn eu hunaniaeth Gymreig.

- Yn fras, maen nhw am weld rhaglenni i blant dan 5 oed yn ystod y boreau, ar ddiwrnodau'r wythnos a'r penwythnos, rhaglenni ar gyfer plant 5-10 oed ar ôl ysgol yn ystod yr wythnos a thros yr awr ginio ac yn y prynhawniau dros y penwythnos, a rhaglenni i blant a phobl ifainc 10 - 16 oed gyda'r hwyr.

- Mae awgrym o'r ymatebion i'r ymgynghoriad y bydd yn fwy anodd denu plant a phobl ifainc 14 - 16 oed, sydd ar hyn o bryd yn teimlo nad atyn nhw y mae S4C yn cael ei hanelu.

6.2 Oedolion (Unigolion)

- Bydd y gwasanaethau newydd a gynigir i blant a phobl ifainc yn cael ei groesawu'n frwd, yn enwedig gan rieni, ac mae rhai yn credu y dylai'r newidiadau fod wedi hen ddigwydd;

- Bydd yn rhaid gosod nod o greu rhaglenni o safon uchel yn flaenoriaeth;

- Dylent adlewyrchu ffyrdd o fyw teuluoedd cyfoes wrth amserlennu;

- Dylent gael polisi iaith clir iawn o'r cychwyn, a chynllunio rhaglenni addas i bob gallu ieithyddol;

- Dylai'r gwasanaethau gael eu brandio yn glir ar gyfer y tair cynulleidfa darged wahanol, a defnyddio platfformau addas i gyrraedd y gwahanol gynulleidfaoedd;

- Dylai'r gwasanaethau fod ar gael yn gyson a'u cynnwys yn y canllawiau rhaglenni electronig addas.

6.3 Oedolion (Sefydliadau)

- Ystyrir y gwasanaeth newydd fel cyfle unigryw i gynnig gwell gwasanaethau teledu i blant a phobl ifainc Cymraeg eu hiaith.

- Mae ymrwymiad S4C i ddarparu'r gwasanaeth yn cael ei ganmol, ar adeg pan fo llawer o ddarlledwyr Prydain fel petaent yn cefnu ar raglenni i blant a phobl ifainc.

- Ystyrir y gwasanaeth helaethach newydd fel cyfle go iawn i gwmnïau cynhyrchu Cymru.

- Mae rhai sefydliadau yn dymuno gweld S4C yn ystyried rhannu'r cynulleidfaoedd targed mewn ffordd fwy soffistigedig nag a awgrymir yn y ddogfen ymgynghorol - yn nhermau grwpiau oedran a chysylltiadau gyda'r cwricwlwm addysg, ac yn nhermau galluoedd ieithyddol.

- Mae croeso eang i'r cynigion i ddilyn opsiynau aml-blatfform a defnyddio pob technoleg addas yn llawn ac yn greadigol.

- Fodd bynnag, mae nifer arwyddocaol o sefydliadau, er eu bod yn cytuno yn waelodol gyda'r cynnig i ymestyn gwasanaethau teledu Cymraeg i blant a phobl ifainc, hefyd yn poeni y bydd Cynigion S4C yn y ddogfen ymgynghorol yn effeithio'n andwyol ar ddarlledu gweithrediadau'r Cynulliad Cenedlaethol. Mae nifer o ymatebwyr yn annog yr Awdurdod i ailystyried yr opsiynau posibl ynghylch gofod darlledu.

- Mae ymatebion nifer o gyrff ac unigolion yn awgrymu fod angen i'r Awdurdod brofi na fydd ei benderfyniad i beidio â chwilio am gyllid ychwanegol i'r gwasanaeth newydd ar hyn o bryd yn andwyol i wasanaethau cyfredol S4C.

Ymatebion a Dderbyniwyd

Ceir manylion am yr ymatebion a dderbyniwyd gan yr Awdurdod yn ystod y broses ymgynghori, ac y mae gennym ganiatâd i'w cyhoeddi, trwy ddilyn y linciau canlynol.

Ymatebion gan Blant a Phobl Ifainc

Ymatebion gan Blant a Phobl Ifainc

Ymatebion gan Unigolion

Drwy'r we

Ymatebion gan Unigolion A-H
Ymatebion gan Unigolion J-M
Ymatebion gan Unigolion N-R
Ymatebion gan Unigolion S-W

Wedi eu derbyn yn uniongyrchol

Ymatebion gan Unigolion wedi eu derbyn yn uniongyrchol

Ymatebion gan Sefydliadau

Ymatebion gan Sefydliadau

Ymatebion Di-enw

Ymatebion Di-enw